

ASESIAD RISG			
<i>Perygl</i>	<i>Risg</i>	<i>Tebygolrwydd/ Effaith</i>	<i>Mesurau Lliniaru</i>
Tywydd	Oerfel	Isel/Difrifol	<p>Darllen a deall y rhagolygon tywydd (yn arbennig y rhagolygon tywydd mynydd)</p> <p>Sicrhau fod pawb wedi gwisgo'n addas ar gyfer y tywydd (atgoffo o'r angen i gario dillad sbâr)</p> <p>Cario lloches argyfwng</p> <p>Addasu'r daith yn unol â'r rhagolygon</p> <p>Asesu'r tywydd a chyflwr y cerddwyr yn ystod y daith ac addasu'n ôl yr angen</p> <p>Atgoffa pawb o'r angen am ddiod poeth a lluniaeth</p> <p>Caniatáu digon o seibiant ar gyfer yfed</p>
	Gorboethi	Isel/Difrifol	<p>Darllen a deall y rhagolygon tywydd (yn arbennig y rhagolygon tywydd mynydd)</p> <p>Addasu'r daith yn unol â'r rhagolygon</p> <p>Asesu'r tywydd a chyflwr y cerddwyr yn ystod y daith ac addasu'n ôl yr angen</p> <p>Atgoffa pawb o'r angen i gario ac yfed digon o ddŵr</p> <p>Caniatáu digon o seibiant ar gyfer yfed</p> <p>Atgoffa pawb i ddefnyddio eli haul/gwisgo het</p>
	Tywydd gwael	Uchel/Cymedrol	<p>Darllen a deall y rhagolygon tywydd (yn arbennig y rhagolygon tywydd mynydd)</p> <p>Sicrhau fod pawb wedi gwisgo'n addas ar gyfer y tywydd (atgoffo o'r angen i gario dillad glaw)</p> <p>Sicrhau fod gan bawb offer eira os oes rhagolygon am rew ac eira</p> <p>Cario lloches argyfwng</p> <p>Addasu'r daith yn unol â'r rhagolygon</p> <p>Asesu'r tywydd yn ystod y daith ac addasu'n ôl yr angen</p> <p>Cario map a cwmpawd a bod yn gyfarwydd â'u defnyddio</p> <p>Egluro bod raid cadw'n agos at ei gilydd a neb i fynd o flaen yr arweinydd</p> <p>Penodi cerddwr profiadol i fod wrth y gynffon</p>

Dwr	Afonydd/nentydd mewn lli	Canolig/ Cymedrol	Darllen a deall y rhagolygon tywydd (yn arbennig y rhagolygon tywydd mynydd) Bod yn gyfarwydd â'r daith ymlaen llaw Addasu'r daith yn ôl yr angen – ystyried cwtdogi/troi'n ôl
Natur y dirwedd	Llithro, baglu, disgyn (yn arwain at anaf)	Uchel/Difrifol	Bod yn gyfarwydd â'r daith ymlaen llaw Rhoi braslun o'r daith ar y cychwyn gan dynnu sylw at unrhyw beryglon penodol Cofnodi rhif cyswllt argyfwng ar gyfer pawb ar ddechrau'r daith Cario pecyn cymorth cyntaf Sicrhau fod gan bawb esgidiau addas
Cyflwr iechyd/ffitwydd y cerddwyr	Salwch, methiant i gwblhau'r daith mewn pryd	Canolig/Difrifol	Bod yn gyfarwydd â'r daith a'r amser a gymerir i gwblhau cymalau ohoni Egluro natur y daith i unrhyw aelod newydd ymlaen llaw Rhoi braslun o'r daith ar y cychwyn gan dynnu sylw at unrhyw beryglon penodol Cofnodi rhif cyswllt argyfwng ar gyfer pawb ar ddechrau'r daith Cario pecyn cymorth cyntaf Addasu'r daith yn ôl gallu'r cerddwyr Penodi ail arweinydd/ dau gerddwr profiadol i hebrwng unrhyw un sy'n dioddef Gosod arweiniad o ran cyflymdra gan sicrhau fod pawb yn gyfforddus
Tywyllwch	Methiant i gwblhau'r daith mewn pryd; colli'r ffordd	Isel/Cymedrol	Bod yn gyfarwydd â'r daith a'r amser a gymerir i gwblhau cymalau ohoni Cwtogi'r daith yn ôl yr angen – bod yn gyfarwydd a'r cyfleoedd i addasu Cario lloches argyfwng Cario golau pen a batri sbâr Cario map a cwmpawd a bod yn gyfarwydd â'u defnyddio Llawrlwytho map OS/Viewranger neu GPS o'r ardal dan sylw ymlaen llaw Egluro bod raid cadw'n agos at ei gilydd a neb i fynd o flaen yr arweinydd Penodi cerddwr profiadol i fod wrth y gyffon

Categoriâu – Tebygolrwydd: Isel/Canolig/Uchel
Effaith: Mân/Cymedrol/Difrifol